Cofnodion o gyfarfod rhithiol Cyngor Llanbedr 7.7.22 am 7.30

Gwynfor Delytho Aberystwyth dros zoom.

Hefyd croesawu Nia Jones a John Evans a gafwyd eu cyfethol (drwy ballot) ar y Cyngor.

Adran Cyllid

Nododd y Clerc bod Archwiliad 2020/21 bellach wedi cael eu gymeradwyuo. Dim rheswm nad oedd hwn wedi ei wneud yn gynnharach gan bod archwiliad 2019/2020 wedi eu gwblhau yn llwyddiannus. (Er bod Llywodraeth Cymru yn gwadu hwn).

Er bod sylwadau wedi eu gneud.

"Heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol!

Yn peidio a chydymffurfio a deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol.

Yn anghyson a threfniadau llywodraethau'r Cyngor

Nad oes gan y Cyngor drefniadau priodol y neu lle I sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Bod Cyngor Llanbedr yn cael archwiliad llawn eleni, ond dim manylion pellach parthed hyn. (Oedd hyn I fod ar gyfer y flwyddyn ariannol diwethaf ond oherwydd achosion cofid , nid aeth hyn ymlaen.

Bydd y Clerc yn holi parthed sylwadau yr Archwilydd Allanol a hefyd yn datgan siom bod y dyfarniad wedi bod yn hir yn cael eu ddyfarnu. O Awst 2021 hyd at Mai 25.

Derbyn Cofnodion

Cyfrifoldebau y Cyngor Cymuned – hwn wedi ei anfon drwy e bost gan y Clerc.

Mis Medi fydd y Cyfarfod Blynyddol yn awr gan ein bod bellach yn Gyngor llawn.

Angen adroddiad blynyddol gan y Cadeirydd erbyn hyn I gadw gyda deddfwriaeth Llywodraeth leol.

Materion yn codi o'r Cofnodion diwethaf

1. Ffordd Newydd – nifer o lythyrau gan aelod o'r cyhoedd o De Cymru parthed hyn. Bod ETh am eu scanio a'u hafnon at bwy bynnag sydd a diddordeb y neu derbyn dros e bost. Jane Taylor yn awyddus. Nododd y Clerc ei bod wedi tynnu lluniau o'r llythyrau ac wedi eu hafnon at AH a GO er gwybodaeth.
   Derbynniwyd unwaith eto e bost gan aelod o'r cyhoedd parthed cynnig am safle parcio a llwybr troed ar ffordd Mochras.
   Gan bod y Newydd gyda "levelling up" gyda Llywodraeth y DU – ceisio arian ar gyfer y ffordd Newydd, felly yn anodd rhoi ateb cadarnhaol I'r cynnigydd parthed hyn. Bu cryn drafod ar hyn, rhai yn tybio bod y safle dan sylw yn rhy bell o'r Pentref I gael mantais llawn. Hefyd ar lwybr y ffordd Newydd. Anfon ateb drachefn, yn egluro hyn ac ymddiheuro ond bod dwylo y Cyngor Cymuned wedi ei glymu, cyd weithio gyda Cyngor Gwynedd ac felly yn gorfod aros am gyfnod pellach. Diolch iddo am y cynnig.
2. Datblygiad We Newydd – y dudalen yn edrych yn ffresh a Newydd, haws o lawer mynd o un darn I'r llall. Yn fyw erbyn Awst/Medi. Yr adran saesneg yn ei lle, Angen gneud y dudalen iaith gymraeg yn awr. Gwaith DW yw cadw yn gyfredol ac adnewyddu am gyfnod o 12 mis.

Ni d oes busnesa ar hwn yn awr, gellid yn hawdd ychwanegu ffurflen – index o fusnesau o fewn y plwyf, o soes angen.
Cynnig gan AH bod ETh a'r Clerc yn rhoi yr hawl I DW roi y wefan yn fyw.
Angen manylion y Cynghorwyr ar y wefan.
Oes angen llun?
Mae angen rhoi buddiant, rhif ffon neu e bost
Nododd AH a GO gellid rhoi yr un manylion a sydd ar wefan Cyngor Gwynedd
Gellid hefyd creu e bost neilltuol fel un RW
**LV – Gwybodaeth , yn accessible**

**Angen gyrru manylion I Eirwyn er mwyn hwyluso y broses o ychwanegu ar y wefan Newydd**

3. **Heb dderbyn unrhyw ymateb gan Gwmni Evergreen parthed llwybrau. Y Clerc wedi cysylltu gyda Jason Coleman, mae wedi cytuno I wneud y rhai arferol.**
   **Nododd AH bod gweithiwr arall o Harlech wedi dechrau busnes ei hun, torri gwair gerddi, llwybrau a coed.** Cadw mewn cof.
4. Rheilffordd Talwrn Bach – nododd y cler ei bod wedi derbyn manylion yr un sydd wedi mabwysiadu yr Orsaf yma.

Heb dderbyn manylion parthed pris y map llwybrau gan Gruff Price hyd yma.

Pasiiwyd bod Cyngor yn mabwysiadu gyda yr aelod o'r Cyhoedd.

Trefnu I'w gyfarfod.

RW a JT yn awyddus I wneud hyn.

Clerc drefnu dyddiad.

5. Prosiect llwybrau/coedlannau – Bod y 3 cyn gynghorwyr am gario'n mlaen gyda hyn a bellach mae 2 gynrychiolydd o'r Cyngor Newydd yn gallu helpu ac adrodd yn ol i'r Cyngor.

**6. Cynllunio** – dim ceisiadau o'r Newydd/

Nododd y Clerc bod y ceisiadau cynllunio isod wedi cael eu trafod gan Y Parc Cenedlaethol
NP5/62/372G – Mast Cyfathrebu Maes Awyr – wedi ei ganiatau
ond gyda amodau.
NP5/62/422A Ty'r Graig, Llanbedr sied gardd – dim penderfyniad eto.
Cais Rhif NP5/62/63H pods ar dir ger Capel Salem – cais amlinellol Hwn wedi ei wrthod.

7. Materion Cyngor Gwynedd
AH yn adrodd ar hyn:-
Archwiliad Pont Llanbedr – heb dderbyn ateb parthed hyn.
Llinellau melyn o Ty Mawr I LLys Brithyll – Iwan ap Trefor ac adran cyfreithiol.
Coed yn yr afon – Cyfoeth naturiol Cymru yn mynd I dorri a chlirio y goeden ger Pont y Pentref, ond cyfrifoldeb tir feddiannwyr yw coed yn yr Artro ger Tai Croesion.
Cais I ddiddymu safle parcio anabledd gyferbun a Moelfre Terrace (ger mynedfa I'r ffordd o ffordd Mochras) – hwn ar y gweill.
Llinellau melyn ger Capel Beser – dal dim ymateb I hyn.

Twll yn y ffordd ger y Kiosg – Adran Gwaith stryd yn symud ymlaen efo hyn. Rhybudd adran 81 I Dwr Cymru. Archwiliwyr yn cynnal ymchiliad i hyn.
Murmur y Dail – deal bod Gwaith yn dal yn cael ei wneud ar y safle yma.
Toiledau Cyhoeddus Llanbedr – wedi cael ei fandaleiddio yn ddiweddar – yr heddlu wedi cael gwybod am hyn. Ac yn cadw golwg.
Arwyddion Ffordd Cypla – cais am arwyddion - manau pasio yn unig – Dim ymateb I hyn.
Torri ochr ffyrdd – yn defnyddio tractor llai ar gyfer y Gwaith yma.
GO – Nododd ei fod yn cynnal gweithdai yn Llanbedr, unwaith y mis. Poster yn y bwrdd hysbysebu. Hefyd yn cerdded o gwmpas y Pentref o leiaf 4 gwaith yr wythnos. Hyn er mwyn dod I adnabod ei phobl ac anghenion yn Llanbedr.
Bod AH ac yntau ar wahanol bwyllgora Cyngor Gwynedd – dechrau cysylltu efo materion ar wahanol bwyllgora.
6 eiddo gwag yn Llanbedr.
RW yn holi beth ddoth o'r enwau ar gyfer mesur traffic yn Llanbedr. Nododd GO mae dim ond ei enw ef sef RW sydd ganddo ar hyn o bryd ar gyfer Llanbedr.
Pasiwyd i roi poster parthed hyn ar y bwrdd hysbysebu.

8. Cae Chwarae – wedi gofyn am archwiliad. Hefyd wedi tynnu un set o goals – wedi cancro. Er diogelwch. Angen chwilio am grantiau. Dim digon o arian ar gael yn y gyllideb, os bydd angen gneud gwelliannau i offer cae bach plant. Pasiwyd I symud y cerflyn unwaith yn rhagor. Lleoliad Newydd yn y cae chwarae ond yn fflat.
Grantiau – cysyllu gyda Swyddog Adfywio Bro – Anna Lewis.
Bod Nia am siarad gyda rhai parthed y goals.
Chwyn ar y llwybr. Gwirfoddolwyr I wneud hyn AH, JT, MLl.

9. Aelodau ar Wahanol Bwyllgora/cyfarfodydd

Is Gadeirydd – Jane Taylor Williams
Un Llais Cymru – Eirwyn Thomas a Jane Taylor
HAL – Kevin Titley
Huchenfeld – Kevin Titley, Helen Johns, Luise Vassie (angen gwybodaeth a hanes am hyn)
Is bwyllgor llwybrau a prosiect llwybrau – Nia Jones a Luise Vassie
Cae Chwarae – Eirwyn Thomas a John Evans
Steision Talwrn Bach – Robin Ward a Jane Taylor Williams
Parc Cenedlaethol – Robin Ward.
Diolchodd y Cadeirydd i bawb sydd wedi gwirfoddoli i fynychu y cyfarfodydd yma, boed yn gyfarfodydd safle neu yn rhithiol.
10. Unrhyw Fater Arall

1. Gweithdy Ardudwy Ni 2035 – bod Jane a Kevin am fynychu ond angen mwy o wybodaeth parthed trefn y gweithdai – lleoliad etc.
2. Gneud Gwaith cae chwarae ar ol sioe frenhinol. Clirio chwyn
3. Clirio Pentref – sbwriel – GO yn cynnig casglu yr offer pwrpasol o Siop Dref Werdd Blaenau.
4. LV – angen manylu ar gyfer dogfen "Statutary Guidance" -

Anfon ymlaen I Nia a John

Clerc drefnu dyddiad gyda Luise i fynd drwy'r ddogfen yma, er mwyn gwneud yn siwr bod y Cyngor yn cadw at y rheolau statudol. Codwyd y mater gan RW mewn e bost yn ystod y mis diwethaf..

5..AH – yn diolch I Jane Taylor Williams am drefnu gweithgaredd a te 5.6.22 fel rhan o ddathliadau Jubilee y Frenhines 70.

Nododd Jane bod cynulleidfa deilwng yno er y tywydd garw, a da oedd gweld pobl leol a phobl ddieithr I Lanbedr yn uno yn sgwrsio a mwynhau.

Rhif 6. Bod Nia yn codi y mater parthed tynnu safle anabl ger y Bont. Angen esboniad gan nad oedd yn y cyfarfod diwethaf.

Rhif 7. KT yn son bod angen torri ffordd rhwng y Dump a Talwrn bach. Nododd AH ei bod wedi cysylltu gyda Adrian Williams Cyngr Gwynedd yn barod parthed hyn.

Cadw Cymru'n Daclus – kevin gyda cymorth GO I gael yr offer perthnasol ar gyfer codi sbwriel. Fydda modd i'r Cyngor brynu rhai hefyd. Angen gwasgoda hefyd. Byddai John Evans yn gallu cael rhain at ein defnydd.

Angen tua 5 set.

Rhif 8 – Nododd GO ei fod ef a AH wedi derbyn Cyflwyniad gan yr heddlu i gynllun gor yrru cymunedol. Fel y dywedwyd o'r blaen yn y cofnodion dim ond un enw o Lanbedr ar y rhestr. Angen hyrwyddo hyn drwy boster yn y bwrdd hysbysebu.